

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
Cynllun Llesiant 2018-2023**

Ein Bro - Ein Dyfodol



Crynodeb Gweithredol

Drafft Ymgynghoriad



‘Ein Bro Ein Dyfodol’ yw Cynllun Gwelliant cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y Fro ac mae’n cynrychioli newid arwyddocaol o ran sut mae partneriaid yn cydweithio i wella gwasanaethau ym Mro Morgannwg.

Mae’r Cynllun hwn yn ddatganiad o ymrwymiad y BGC i wella llesiant lleol heddiw ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Manyla’r cynllun ar ein gweledigaeth ar gyfer 2050 a’r camau y byddwn yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf sef y camau cyntaf i gyflawni ein nod o weledigaeth a rennir ar gyfer Bro Morgannwg.

Ein Gweledigaeth 2050 ar gyfer y Fro

Bydd teimlad o berthyn gan bawb a byddant yn falch o gael bod yn rhan o’r Fro, gan gydnabod eu cyfraniad i lwyddiant y rhanbarth a Chymru. Caiff ein heffaith ar yr amgylchedd, yn lleol ac ar draws y byd, ei ddeall, a bydd gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau yn cydweithio i ddiogelu’r amgylchedd a’n adnoddau naturiol er budd cenedlaethau heddiw a’r dyfodol. Bydd y Fro yn ardal o optimistiaeth ac uchelgais, lle byddwn yn cydweithio i sicrhau fod pobl ifanc yn cyflawni eu huchelgeisiau unigol a’u bod yn derbyn cefnogaeth drwy’r blynyddoedd cynnar, plentyndod a’u glasoed. Caiff nodweddion cadarnhaol ein poblogaeth sy’n heneiddio eu cydnabod a’u parchu a chaiff cyfraniad pobl hŷn i hyfywedd a dygnwch y Fro ei werthfawrogi. Bydd preswylwyr o bob oed a chefnidir yn cyfranogi at fywyd cymunedol, gan helpu i siapia gwasanaethau ac ymfalchïo yn yr ardal y maent yn byw ynddi. Cydweithio er budd y genhedlaeth hon a rhai’r dyfodol fydd y norm, a bydd gan breswylwyr hyder yn y gwasanaethau a dderbyniant ac yn eu gallu i beri newid er mwyn gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Nodwedd yn perthyn i’r gorffennol fydd anghydraddoldeb addysgol ac iechyd wrth i ni gydweithio dros Fro lle gall bawb gyrchu’r gwasanaethau a’r cymorth sydd eu hangen arnynt er mwyn byw bywydau iach, diogel a llawn.

Cydweithio

Mae 'Ein Bro', BGC y Fro yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Bwrdd Iechyd y Brifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM)
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Heddlu De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cynrychiolaeth gan Gyngorau Tref a Chymuned
- Cyngor Bro Morgannwg
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Llywodraeth Cymru (LIC)

Sefydlwyd y BGC yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio i gyflawni **Ein Bro Ein Dyfodol**. Mae hwn yn gynllun pum mlynedd ac mae'n rhoi'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau ein partneriaeth dros y cyfnod 2018-2023. Mae'r cynllun yn manylu ar ein pedwar amcan i wella llesiant a'r camau a gymerwn i'w cyflawni nhw.

Ein pedwar amcan llesiant yw:

Galluogi pobl i gyfranogi, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a siapio gwasanaethau lleol	Lleihau tloedi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd ynghlwm ag amddifadedd
Rhoi'r dechrau gorau posib ar fywyd i blant	I ddiogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.

Wrth gytuno ar ein pedwar amcan rydym wedi ystyried yr ystod o wybodaeth o fewn ein hasesiad llesiant¹ a'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn lleol a rhanbarthol. Mae'r BGC yn hyderus wrth gyflawni'r amcanion hyn y gallwn ddylanwadu ar ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau ledled y Fro. Gallwn wneud gwahaniaeth cadarnhaol i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein preswylwyr a'n hymwelwyr a thrwy gyfnod y cynllun byddwn yn cyfrannu gymaint ag y gallwn i'r amcanion llesiant cenedlaethol.

Mae manylion yr Amcanion Llesiant cenedlaethol isod. Tra bod ein pedwar amcan ni yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn lleol, byddwn hefyd yn cydweithio i sicrhau fod ein gweithgareddau yn cyfrannu at yr amcanion cenedlaethol ac yn helpu i wella llesiant trwy Gymru benbaladr.

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

¹ http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Public-services-board/Increasing-our-Evidence.aspx

Gwella llesiant yn lleol – gwella bywyd

Yn ogystal â'n gweledigaeth gyffredinol i'r Fro ar gyfer 2050, rydym wedi datblygu datganiad ynghylch lle y dymunwn fod yn 2050 ar gyfer pob un o'n pedwar amcan. Mae'r ychydig dudalennau nesaf yn manylu ar y camau y byddwn yn eu mabwysiadu dros y pum mlynedd nesaf wrth i ni weithio tuag at ein gweledigaeth ar gyfer 2050. Bydd y gweithgareddau hyn yn gosod y seiliau ar gyfer ein gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y Fro. Ceir mwy o wybodaeth am ein hamcanion a'r modd y datblygwyd y cynllun yn y fersiwn lawn o'r Cynllun.²

² www.valeofglamorgan.gov.uk/amser-siarad

Amcan 1 - Galluogi pobl i gyfranogi, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a siapio gwasanaethau lleol

Mae BGC y Fro wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ein preswylwyr oll wedi ymgysylltu ag ac yn teimlo'n rhan o'n cymunedau er mwyn gwireddu ystod o fanteision llesiant.

Erbyn 2050 rydym am i'r Fro fod yn fan lle:

Clywir llais pawb ledled y Fro, lle caiff pob un y cyfle i gyfranogi mewn siapio gwasanaethau lleol a'u bod yn hyderus y gwrandewir arnynt a'u bod yn gallu gweld y gwahaniaeth y mae eu cyfranogiad wedi ei wneud. Bydd ymgysylltiad cydlynol rhwng gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector, a bydd partneriaid wedi addasu dulliau ymgysylltu i ymateb i anghenion newidiol ein cymunedau. Bydd pobl yn ei chael hi'n hawdd a chyfleus i gyfathrebu â ni wrth i ni fanteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau technoleg ddigidol ond gan gydnabod o hyd gwerth cysylltu wyneb yn wyneb. Bydd gwell dealltwriaeth gan bob un ohonom o'r asedau sydd yn ein cymunedau a nodweddion unigryw pob cymuned, boed nhw'n seiliedig ar leoliad, ar oed neu ddiddordeb cymunedol. Bydd cyfle gan bobl o bob cefndir ac oed i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol, i gymryd rhan mewn dylunio a chyflawni datrysiadau i broblemau lleol ac wedi eu grymuso i gydweithio i nodi ac atal problemau sy'n effeithio arnynt - yn lleol, cenedlaethol a ledled y byd. Mae lefelau gwirfoddoli yn y Fro wedi parhau i godi ac mae capasiti a hyder uwch wedi arwain at lefelau cyfranogiad uwch mewn ardaloedd llai cyfoethog. Sylweddolir fod manteision eang i ymwneud â bywyd cymunedol a bod ymwneud mwy yn cynorthwyo i wella iechyd a llesiant, i wneud cymunedau yn fwy cydlynol ac yn lleihau unigrwydd ac allgau cymdeithasol.

I gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2050 dechreuwn drwy:

- Mabwysiadu'r <https://participation.cymru/cy/egwyddorion/>.
- Ymchwilio i arfer gorau ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol er mwyn datblygu dulliau newydd addas i'w rhoi ar waith yn lleol.
- Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i staff a phreswylwyr o bob oed.
- Cynhyrchu pecyn cymorth i bartneriaid er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau ymgysylltu yn fwy cydlynol.
- Gweithio gyda'r gymuned leol i nodi a datblygu project o fewn un o'n cymunedau mwyaf difreintiedig sy'n cynnwys y gymuned o'r dechrau'n deg i bennu'r hyn sydd ei angen a'r datrysiad gorau.
- Datblygu ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth am ein cymunedau lleol a sut y gallwn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn eu cymuned.
- Gweithio gyda staff a phobl sy'n gweithio yn y gymuned e.e. hyfforddwy'r chwaraeon a gwirfoddolwyr i nodi anghenion, codi ymwybyddiaeth a chyfeirio at wasanaethau e.e. dementia, cam-drin domestig, allgau/unigrwydd.
- Adeiladu ar brofiad cynlluniau bancio amser lleol a'r rheiny mewn ardaloedd cyfagos i archwilio'r posibilrwydd o greu cynllun bancio amser rhanbarthol/ledled y Fro.

Amcan 2 - Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd ynghlwm ag amddifadedd

Mae'r BGC wedi cydnabod er mwyn cyflawni Amcanion Llesiant Cenedlaethol Cymru ei bod yn bwysig lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau.

Erbyn 2050 rydym am i'r Fro fod yn fan lle:

Rydym wedi gweithio gyda chymunedau lleol i greu Bro Morgannwg fwy cyfartal ac wedi torri ar y patrymau tlodi rhwng y cenedlaethau. Rydym wedi adeiladau ar asedau cymunedol, cryfhau dygnwch ein cymunedau ac wedi rhoi'r grym i bobl oresgyn y sefyllfaedd o amddifadedd sydd wedi hen ymsefydlu mewn rhai ardaloedd. Bydd disgwyliad oes iach mewn ardaloedd o amddifadedd wedi cynyddu a'r bwlch rhwng y rhain ac ardaloedd eraill y Fro wedi cau. Bydd cyfle person o fyw bywyd iach yr un fath ym mha le bynnag y byddant yn byw a phwy bynnag ydyn nhw. Bydd lleihad mewn anghyfartaledd iechyd mewn ardaloedd o amddifadedd yn lleihau wrth i ni weithio gyda'r gymuned i leihau lefelau o ordewdra ac ysmegu a chynyddu bwyta'n iach a gweithgaredd corfforol. Bydd lefelau troseddu wedi lleihau a bydd pob plentyn yn cael dechrau da ar fywyd. Bydd yr amgylchedd a adeiladwyd a'r un naturiol wedi gwella a bydd manteision llesiant treulio amser yn yr awyr agored a gwell safon o ran tai yn cael eu gwireddu ledled y Fro. Bydd cyrhaeddiad addysgol wedi gwella a bydd y sgiliau gan bobl i ennill a datblygu yn eu swyddi fel modd o ddringo allan o dlodi. Bydd Y BGC wedi gweithio gyda phartneriaid ledled y rhanbarth i sicrhau fod y Brifddinas-ranbarth wedi creu manteision i holl gymunedau'r Fro.

I gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2050 dechreuwn drwy:

- Rhoi mwy o ymgysylltu, ymchwil a dadansoddi ar waith parthed anghydraddoldebau rhwng ein cymunedau o amddifadedd mwyaf a lleiaf er mwyn deall sut i fynd i'r afael â'r heriau a lleihau anghydraddoldebau.
- Gweithio gyda sefydliadau megis banciau bwyd, gwasanaethau cynghori ar ddyled a phrojectau eraill yn y gymuned, i wella hygyrchedd gwasanaethau, gwybodaeth a chymorth.
- Hyrwyddo ymddygiad iach a newid y modd y byddwn yn gweithio er mwyn sicrhau bod ein negeseuon yn cyrraedd pawb, yn enwedig pobl hŷn, pobl ifanc a'r rheiny mewn ardaloedd o amddifadedd uwch.
- Gweithio gyda phreswylwyr lleol i nodi a chyflawni project amgylcheddol mewn un neu fwy o'n hardaloedd o amddifadedd er mwyn helpu i wella cyfranogiad cymunedol a llesiant.
- Adeiladu ar weithgareddau Cymunedau yn Gyntaf a gwaith a wneir trwy gyfrwng rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chefnogi pobl i ddatblygu ymagwedd fwy cydlynol i drechu tlodi ledled y Fro.
- Datblygu cyfleoedd newydd i gael profiad gwaith, lleoliadau gwaith, prentisiaethau a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â chyfleoedd gwaith y dyfodol.
- Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- Ystyried sut y gallwn wella'r amgylchedd ac annog chwarae y tu allan yn rhai o'n hardaloedd o amddifadedd uwch trwy gyfrwng cynlluniau gwella trafndiaeth a chau strydoedd ar gyfer chwarae.

Mae'r BGC wedi tanlinellu bod sicrhau bod plant yn derbyn y dechrau gorau ar fywyd yn faes allweddol ar gyfer gweithredu ar y cyd ac yn faes lle y gallwn adeiladu ar ein cryfderau i greu effaith sylweddol.

Erbyn 2050 rydym am i'r Fro fod yn fan lle:

Bydd pob plentyn yn y Fro yn derbyn y dechrau gorau posib ar fywyd, waeth lle byddont yn byw. Bydd iechyd plant wedi gwella a chyfraddau babanod pwysau geni isel, gordewdra ymhlith plant ac iechyd y geg wael wedi lleihau ledled y Fro ac yn enwedig o fewn ardaloedd yn Nwyrain y Barri. Bydd buddsoddi yn y 1000 o ddiwrnodau cyntaf yn arwain at effaith hirymarhous gan greu unigolion, teuluoedd a chymunedau sydd yn ddygn, diogel a hyderus. Bydd plant yn parhau i berfformio'n dda yn y cyfnod sylfaen gyda'r bwlch cyrhaeddiad yn lleihau rhwng y rhai hynny sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim a'r gweddill ar draws pob oed. Bydd plant yn cael eu diogelu rhag Profiadau Plentyndod Adfydus a bod gwreiddiau'r rheiny wedi eu hatal a bod system gymorth gref ar waith i'r rhai ag anghenion cymhleth.

I gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2050 dechreuwn drwy:

- Defnyddio canfyddiadau'r cynllun peilot 1000 o Ddyddiau Cyntaf i herio a bwydo i ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar yn y Fro, gan archwilio'r hyn all partneriaid ei wneud i wella gwasanaethau i rieni a phlant ifanc.
- Datblygu ymagweddau newydd i wella sgiliau rhianta gan gynnwys cysylltu gweithgareddau â chwarae a'r amgylchedd naturiol.
- Datblygu dealltwriaeth well o effaith Profiadau Plentyndod Adfydus (PPA) er mwyn sicrhau fod pobl wedi eu diogelu, bod systemau cymorth yn eu lle a bod achosion PPA yn cael eu hatal.
- Adolygu ein gwasanaethau a chydweithio i nodi sut y gall yr holl bartneriaid roi'r dechrau gorau posib ar fywyd i blant.
- Adolygu sut mae ein gwahanol sefydliadau yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau statudol ac ataliol i blant a phobl ifanc.
- Cydnabod y rhan sydd gan oedolion ym mywydau plant ac archwilio sut y gallwn gydweithio i ddarparu'r cymorth a'r gwasanaethau ataliol iawn i oedolion a fyddai fel arall mewn peryg o golli eu cartrefi neu fynd drwy'r System Cyfiawnder Troseddol oherwydd, er enghraifft cam-drin domestig, iechyd meddwl gwael neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Amcan 4 - I ddiogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.

Mae'r BGC yn cydnabod fod yr amgylchedd yn un o'n hasedau mwyaf. Mae angen i gymryd camau ar y cyd i ddiogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Erbyn 2050 rydym am i'r Fro fod yn fan lle:

Bydd yna dealltwriaeth a rennir ynghylch pa mor werthfawr yw ein hadnoddau naturiol a'r amgylchedd lleol a'r modd y cyfrannant at ein llesiant. Deallir ein cyfrifoldeb byd eang i ddiogelu a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ar draws pob sector ac ar draws ein cymunedau. Mae'r Fro yn ardal lle mae'r sector gyhoeddus yn dangos arweiniad cryf ac yn rheoli ei ystadau yn gynaliadwy. Mae dealltwriaeth yn bodoli am effaith amgylcheddol y modd y caiff gwasanaethau eu darparu a'u cyrchu a'r angen i hyn gael ei leihau i'r eithaf. Mae'r gymuned gyfan yn chwarae rhan yn diogelu a gwella ein hasedau naturiol ac rydym wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n annog ymddygiadau cynaliadwy. Mae cyfraddau uwch o deithio actif a chynaliadwy ac ailgylchu, awyr iach ac ansawdd dŵr gwell ac ôl troed ecolegol is ar gyfer y Fro. Mae ymyriadau ar waith er mwyn helpu i atal, rheoli a lleihau effeithiau hir dymor digwyddiadau tywydd eithafol a achosir gan newid hinsawdd ar y Fro. Gall y gymuned gyfan gyrchu lleiniau gwyrdd, parchu'r llefydd hyn a chyfrannu at gynnal fel y gall pawb weld y manteision o fod yn gallu cyrchu amgylchedd a thirwedd amrywiol, cyfoethog o ran bywyd gwyllt. Bydd cyfleoedd amgylchedd naturiol o safon uchel fel ased fwyaf y Fro yn cael eu gwireddu sydd o fudd i breswylwyr ac ymwelwyr; caiff twristiaeth gynaliadwy ei hyrwyddo a bydd yn cyfrannu at lesiant economaidd a diwylliannol gwell yn yr ardal.

I gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2050 dechreuwn drwy:

- Cyflawni ar ein hymrwymiad ar y cyd i:
 - archwilio cyfleoedd i leihau ein heffaith carbon drwy edrych ar yr ynni a ddefnyddiwn
 - adolygu'r modd y rheolwn ein lleiniau agored i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd
 - lleihau perygl llifogydd a llygredd dŵr
 - deall a lliniaru ein heffaith ar ansawdd yr aer
- Hyrwyddo cerdded a beicio i staff a chwsmeriaid a darparu cyfleusterau i alluogi dewisiadau trafndiaeth actif. Eir i'r afael â'r gwaith hwn ar y cyd â'r Prifddinas-ranbarth.
- Gweithio gyda'r Prifddinas-ranbarth i hyrwyddo a hwyluso teithio mwy cynaliadwy o fewn y Fro ac ar draws y ranbarth a lle bo angen dylanwadu ar a lobbio darparwyr trafndiaeth i gynnig dewisiadau trafndiaeth gyhoeddus well.
- Adolygu asedau tir cyhoeddus a gwneud y gorau o'u potensial ar gyfer defnydd cymunedol a'u gwerth fel adnodd amgylcheddol.
- Datblygu gwell dealltwriaeth ar draws ein sefydliadau am faterion amgylcheddol, a'r effaith y mae'r modd y gweithiwn ac y darparwn ein gwasanaethau yn ei gael.

- Gweithio gyda busnesau a diwydiannau lleol i wneud y gorau o fuddion economaidd ein hamgylchedd e.e. Trwy dwristiaeth ac amaeth wrth gymryd camau i leihau effeithiau negyddol a chwilio cyfleoedd i wella amgylchedd y Fro.
- Archwilio sut gall polisiau ac arfer caffael gefnogi'r economi leol a diogelu'r amgylchedd lleol.

Gwneud Gwahaniaeth

Credwn wrth gyflawni'r ymrwymadau uchod y gallwn wella llesiant lleol a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl. Mae ein pedwar amcan llesiant yn cyd-gysylltu ac mae'n glir y bydd llawer o'r camau yn ein Cynllun yn helpu i gyflawni mwy nag un o'n hamcanion a chyfrannu at nifer o'r amcanion llesiant cenedlaethol. Nid bwriad y Cynllun yw manylu ar bob gweithgaredd y bydd partneriaid yn mynd i'r afael â nhw ac nid ei fwriad chwaith yw dyblygu gwaith a wneir eisoes trwy gyfrwng ein trefniadau partneriaeth, er enghraifft y Brifddinas-ranbarth a gweithio i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Caerdydd a'r Fro.

Mae'r cynllun hwn yn ymrwymiad gan yr holl bartneriaid i gydweithio a gyda'r gymuned leol i wella ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd **Ein Bro – Ein Dyfodol** yn gosod y seiliau ar gyfer cynlluniau a gweithgareddau'r dyfodol a fydd yn ein galluogi ni i gyflawni ein gweledigaeth 2050 ar gyfer y Fro.

Mae modd cael mwy o wybodaeth am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r ymgynghoriad ar y Cynllun Llesiant yma www.valeofglamorgan.gov.uk/amser-siarad